Ymddiriedolaeth Afon a Chamlas

# LLWYBR ODYNAU CALCH Y GAMLAS

**Mae dyn wedi gwneud defnydd o galchfaen ym mryniau De Cymru ers canrifoedd. Mae sawl defnydd i galchfaen ar ôl ei wresogi, mewn adeiladau ac ar y tir. Codwyd odynau calch yn agos at gamlesi er mwyn i'r cludiant fod yn haws.**

Bydd y daflen hon yn dweud mwy wrthoch chi am odynau calch, a lle i'w gweld nhw ar hyd y gamlas.

LOTTERY FUNDED
ARIENNIR GAN Y LOTERI
www.canalrivertrust.org.uk
CANAL & RIVER TRUST • TEL: 0303 040 4040

## GLANFA GOETRE

Dyma rai o'r odynau sydd wedi eu cadw orau fyddwch chi'n ei weld ar eich taith ar hyd y gamlas. Mae'n llawer haws gweld yn union sut roedd yr odynau'n gweithio pan fyddan nhw wedi cael eu cadw mor dda. Yn Goetre, fel yn Watton wrth Aberhonddu, mae top yr odyn yn agos at y gamlas, felly doedd dim rhaid i'r defnyddiau crai gael eu cario'n bell o'r cychod. Mae'r odynau hyn o saernïaeth dda, ac wedi cael eu hadeiladu'n arbennig o gywrain. Sylwch ar y cerfluniau efydd o weithwyr yr odynau yma.

### Ydych chi wedi gweld odyn galch?

Wel, mae'n siŵr braidd eich bod chi, ond efallai nad oeddech chi'n gwybod beth oedd e. Mae odynau calch yn adeiladau cadarn, tal wedi eu gwneud o gerrig, a'u tu mewn yn wag, yn aml gyda bwa ar y lefel isaf. Weithiau, fe welwch chi glawdd o odynau calch gyda chyfres o fwâu yn edrych fel ogofâu wedi eu cerfio. Defnyddid yr odynau i losgi calchfaen i gynhyrchu calch. Roedden nhw'n cael eu llwytho o'r top, gyda haenau o lo a chalchfaen bob yn ail, nes eu bod yn llawn dop.

## POETH & PHERYGLUS

Pan oedden nhw'n llawn ac yn barod, roedd yr odynau'n cael eu tanio o'r gwaelod, a byddai'r tân yn llosgi'n araf i fyny drwy'r haenau, gan losgi'r glo yn ulw a throi'r galchfaen yn bowdr gwyn, brau, hawdd ei danio – dyma'r calch brwd. Roedd gweithio'r odyn galch yn waith medrus. Roedd rhaid i'r odyn gyrraedd tymheredd o 900˚C, a dim ond gweithwyr medrus iawn allai wneud hyn.

## GWAITH MEDRUS

Roedd gweithwyr profiadol yn gwybod yn iawn faint o aer i adael i mewn i'r odyn i gyrraedd y tymheredd cywir, a chreu'r calch brwd perffaith. Roedd hi'n broses araf. Gallai gymryd hyd at wythnos, o ddechrau llwytho'r odyn, ei llosgi, ei gadael i oeri, a gwagio'r calch brwd allan ohoni. Byddai'n rhaid goruchwylio a gofalu am yr odyn yn gyson; roedd rhaid i'r dynion aros yn ei hymyl drwy gydol y broses. Wrth danio'r odyn, byddai mygdarth peryglus yn cael ei gynhyrchu, ac weithiau byddai hwn yn mynd yn drech na'r dynion oedd yn gofalu am yr odyn ac yn eu lladd.
Yn ôl y sôn, roedd rhai dynion oedd yn gweithio allan mewn tywydd garw iawn yn aros wrth ymyl yr odyn poeth am gynhesrwydd, ac yn aml iawn yn marw yn eu cwsg. Ar ôl i'r odyn oeri, gallai'r gweithwyr lwytho'r calch brwd i gasgenni i'w gadw'n sych, ac yna ei lwytho ar gerti a mynd â'r calch i'w ddefnyddio mewn gwahanol ffyrdd. Mae'r nifer o odynau calch o gwmpas y wlad yn dangos bod galw mawr am y cynnyrch amlddefnydd hwn. Cam nesaf y broses fyddai ychwanegu mesur penodol o ddŵr at y calch i drawsffurfio'r calch brwd i galch tawdd (dyna ble daeth y dywediad Saesneg - *slaking your thirst*).

## ADWAITH CEMEGOL

Mae cymysgedd o ddŵr a chalch yn cynhyrchu adwaith peryglus ond hanfodol. Mae'r gymysgedd yn cynhyrchu gwres a gall fod yn ffrwydrol; mae'n byrlymu a berwi wrth i'r calch ddadelfennu ac yn dechrau ffurfio llaid. Wrth wneud morter calch, mae'n hanfodol fod dillad y gweithwyr yn eu gorchuddio'n dda – defnyddio menig a gogls, a thrin yr holl broses gyda gofal mawr; mae'r un peryglon hefyd os yw'r calch yn troi'n wlyb ar ddamwain - felly roedd hi'n llawer iawn mwy diogel cludo calchfaen yn hytrach na chalch ffres o'r odyn. Dychmygwch lond cwch neu gert o galch yn cael ei ddal yn y glaw… gallai'r adwaith cemegol, poeth achosi tân, a gan fod cychod a cherti wedi eu gwneud o bren, fyddai hi ddim yn anodd rhagweld trychineb! Y dyddiau hyn, mae gennym ni well dillad ac offer i ddiogelu'r gweithwyr, ac agweddau gwell tuag at ddiogelwch. Mae'n anodd i ni ddychmygu'r gwaith llethol a'r amodau gwael oedd ym mhob cam o'r broses cynhyrchu calch. Cyflog bach iawn oedd y gweithiwr yn ei gael er ei fod mor fedrus yn ei waith. Cyfrannodd y gweithwyr caled hyn gymaint at ffermydd y cylch ac at fyd adeiladu'r cyfnod.

Ymddiriedolaeth Afon a Chamlas

Glandŵr Cymru
The Canal & River Trust in Wales

Mynwy a Brycheiniog

# CAMLAS

## LLWYBR YR ODYNAU CALCH

**Aberhonddu i Goetre**

**Dysgwch am odynau calch wrth i chi deithio ar hyd y gamlas**

EDRYCHWCH AM BAMFFLEDI ERAILL YN Y GYFRES HON